# Ymgysylltu â’ch AS

## Canllaw i Grynwyr yn dilyn etholiad cyffredinol 2024

## Cynnwys


- Cyflwyniad 1
- Estyn arall fel cwrdd 2
- Ymgysylltu ar y cyd gyda grwpiau ffydd eraill 2
- Estyn allan fel unigolyn 3
- Ymgysylltu ag ASau ac eithrio eich AS lleol 3
- Yr hyn i’w wneud os byddwch yn cael cyfarfod 3
  - Sut i baratoi 3
  - Sut i gynnal y cyfarfod 4
- Yr hyn y gall ASau ei wneud (a’r hyn na allant ei wneud) 4
- Sut i gymryd camau dilynol 5


## Cyflwyniad

Gall eich AS gyflawni rôl hanfodol wrth sicrhau newid cadarnhaol ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Trwy ymgysylltu â nhw, gallwch helpu i ddwyn tystiolaeth Crynwyr gerbron y cyhoedd, gan greu cymdeithas sy’n cyd-fynd yn fwy gyda’n gwerthoedd sef cydraddoldeb, heddwch, gwirionedd a chynaliadwyedd.

Rydym yn eich annog i feithrin perthynas hirdymor gyda’ch AS, fel y gallwch eu cynorthwyo i gynnal gwirionedd a didwylledd mewn bywyd cyhoeddus.

Ar ôl i chi feithrin perthynas waith gadarnhaol gyda nhw, bydd hi’n llawer haws i chi ymgysylltu â nhw yn unigol am faterion sy’n peri pryder i chi a’ch cymuned o Grynwyr.

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r egwyddorion a'r manylion ymarferol o ymgysylltu â'ch AS.

## Estyn allan fel cwrdd

Mae'r rhan fwyaf o gyrddau Crynwyr yn cynnwys mwy nag un etholaeth, felly bydd angen i chi ddwyn Cyfeillion ynghyd o bob etholaeth i ysgrifennu at bob AS. Gallwch weld pwy yw eich AS lleol trwy droi at https://members.parliament.uk/FindYourMP.

Rydym wedi darparu rhai cardiau cyfarch er mwyn eich helpu i estyn allan i'ch AS. E-bostiwch politics@quaker.org.uk i archebu.

Ymchwiliwch i gefndir, safbwyntiau a diddordebau eich AS cyn i chi gysylltu â nhw. Bydd hyn yn eich helpu i eirio eich cerdyn cyfarch, eich e-bost neu'ch llythyr mewn ffordd a fydd yn denu eu sylw ac yn eu hannog i ymateb mewn ffordd gadarnhaol. Ar www.theyworkforyou.com gallwch weld gwybodaeth am gofnodion pleidleisio ASau a gweld eu hymddangosiadau yn y senedd yn ddiweddar i weld pa faterion y maent yn tueddu i siarad amdanynt. Bydd eu gwefan a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cliwiau i chi hefyd am eu safbwyntiau a'u diddordebau.

Anfonwch y cerdyn cyfarch ac yna anfonwch neges e-bost os na fyddwch wedi clywed yn ôl wrth yr AS cyn pen mis.

Yn eich cyswllt cychwynnol, neu os byddant yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol, gallech eu gwahodd i ymuno â chi am Gwrdd Addoli a sgwrs dros luniaeth ar ôl hynny. Gallech gael pryd o fwyd gyda nhw hefyd, gan bod hyn yn gallu bod yn gyfle da i feithrin cysylltiad personol. Mae'r tîm materion cyhoeddus wedi bod yn gwneud hyn fel rhan o'n gwaith diplomyddol – darllenwch fwy. Mae gan Gymorth Cristnogol adnodd defnyddiol hefyd o'r enw Breaking Bread.

## Ymgysylltu ar y cyd gyda grwpiau ffydd eraill

Gall ymgysylltu ar y cyd gydag eglwysi a grwpiau ffydd eraill fod yn ffordd wych o feithrin perthnasoedd gyda nhw a dal sylw gwleidyddion.

Gallwch ysgrifennu llythyr agored ar y cyd at eich AS gydag eglwysi a grwpiau ffydd eraill yn eich etholaeth. Defnyddiwch ein llythyr templed.

I ddal sylw pellach eich AS a hyrwyddo gwerthoedd a rennir, gallwch anfon datganiad i'r wasg at eich safleoedd newyddion lleol gyda chopi o'r llythyr. Defnyddiwch ein datganiad i'r wasg templed.

## Estyn allan fel unigolyn

Awgrymwn eich bod yn ystyried estyn allan fel cwrdd Crynwyr yn y lle cyntaf. Mae hyn oherwydd y bydd AS yn aml yn fwy tebygol o ymateb i gyswllt gan grŵp o etholwyr.

Os hoffech gysylltu â'ch AS fel unigolyn, gallech ddefnyddio ein e-bost templed.

## Ymgysylltu ag ASau ac eithrio eich AS lleol

Anaml y bydd ASau yn ymateb i unigolion nad ydynt yn etholwyr iddynt.

Os hoffech gysylltu ag AS ac eithrio eich AS chi am fater yn eu hetholaeth, mae'n well chwilio am rywun yn eu hetholaeth sy'n gallu ysgrifennu atynt. Gallwch weld pwy yw eich AS lleol trwy droi at https://members.parliament.uk/FindYourMP

Os hoffech gysylltu â nhw am fater cenedlaethol gan eich bod yn gwybod bod ganddynt ddiddordeb neu ddylanwad dros y mater hwnnw (e.e. maent yn weinidog sy'n gyfrifol amdano), mae'n well gwneud hyn trwy sefydliad y Crynwyr cenedlaethol (e.e. Grŵp Gwirionedd a Didwylledd y Crynwyr) neu sefydliad cenedlaethol nad yw'n sefydliad y crynwyr (e.e. Cyfeillion y Ddaear).

## Yr hyn i'w wneud os byddwch yn cael cyfarfod

### Sut i baratoi

Os nad ydych chi wedi gwneud hyn yn barod, ymchwiliwch i gefndir, safbwyntiau a diddordeb eich AS cyn i chi gyfarfod â nhw. Fel y soniwyd uchod, gallwch droi at www.theyworkforyou.com a gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr AS.

Os ydych chi'n cyfarfod eich AS fel grŵp, mae'n syniad da dod ynghyd ymlaen llaw i gynllunio sut y byddwch yn cynnal y cyfarfod, gan gynnwys pwy fydd yn gwneud/dweud beth.

### Sut i gynnal y cyfarfod

Bydd y ffordd y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn dibynnu'n rhannol ar eich penderfyniad ynghylch cael cyfarfod addoli, pryd o fwyd neu gyfarfod confensiynol. Beth bynnag y byddwch yn ei ddewis, awgrymwn eich bod yn canolbwyntio ar wrando a meithrin perthynas yn ystod y cyfarfod cyntaf. Nid oes angen i chi gyflawni eich holl nodau yn ystod y cyfarfod cyntaf, ac nid yw hyn yn debygol o ddigwydd.

Dyma rai pwyntiau allweddol y byddwch yn dymuno ystyried eu cynnwys yn y cyfarfod efallai:

- Cyflwyno'r Crynwyr a'r cwrdd lleol oni bai bod yr AS eisoes yn gyfarwydd iawn â nhw
- Holi'r AS sut maent yn ymgyfarwyddo â'u rôl a pha faterion y maent yn teimlo'n angerddol amdanynt
- Holi'r AS a oes unrhyw gymorth moesol neu ymarferol y gallwch ei roi iddynt wrth iddynt fynd ati i gyflawni eu rôl
- Os yw hynny'n teimlo'n briodol, rhannu un mater yr ydych chi'n ymboeni amdano ac yr hoffech eu gweld yn dadlau o'i blaid yn y senedd.
- Mynegi eich dymuniad i weithio gyda nhw yn barhaus

Dylech ystyried rhoi gwybod i ni sut aeth y cyfarfod ac a oes unrhyw beth o'r cyfarfod y dylem gymryd camau dilynol amdano yn eich barn chi. Gall hyn helpu ein gwaith materion cyhoeddus canolog ni yn San Steffan yn fawr. Gallwch gysylltu â ni trwy anfon e-bost at politics@quaker.org.uk neu ffonio 020 7663 1138.

## Yr hyn y gall ASau ei wneud (a'r hyn na allant ei wneud)

Wrth i chi feithrin perthynas barhaus gyda'ch AS, bydd yn ddefnyddiol cofio'r hyn y gallant ei wneud a'r hyn na allant ei wneud.

**Gall AS:**

- Godi ymwybyddiaeth o faterion mewn sawl ffordd, gan gynnwys cwestiynau a dadleuon yn y senedd, ymchwiliadau pwyllgor, gwaith yn y cyfryngau a phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth, er enghraifft trwy gynnig diwygiadau i filiau wrth iddynt fynd trwy'r senedd.

- Eich rhoi mewn cysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, er enghraifft trwy eich cyflwyno i ASau eraill neu sefydliadau sy'n ymboeni am yr un pethau ag yr ydych chi'n ymboeni amdanynt.

Gallwch gael gwybod mwy yn ein canllaw Cysylltu â'ch AS.

**Ni all AS:**

- Ddatrys materion y mae cyrff eraill yn gyfrifol amdanynt, fel cynghorau lleol.
- Gweithredu ar ran unigolion sy'n byw mewn etholaeth AS arall.

Yn aml, bydd ASau yn anfodlon siarad neu bleidleisio yn groes i safbwynt eu plaid am fater, ond ni ddylai hynny eich atal rhag mynegi pryderon sydd gennych chi.

## Sut i gymryd camau dilynol

Sicrhewch eich bod yn diolch i'ch AS am gytuno cael cyfarfod, beth bynnag fo'r canlyniad neu hwyl y cyfarfod. Gallwch eu hatgoffa hefyd o'r hyn a drafodwyd a'r hyn a gytunwyd yn ystod y cyfarfod.

Cysylltwch â nhw ar ôl cyfnod penodedig, mae tua mis yn dda fel arfer. Rydych yn dymuno ei gadael yn ddigon hir fel eu bod yn cael cyfle i fyfyrio am y materion a gweithredu os byddant wedi cytuno gwneud hynny, ond nid mor hir fel eu bod yn anghofio amdanoch chi a'ch cyfarfod!

Cofiwch y gallwch roi gwybod i ni sut y mae'ch gwaith ymgysylltu yn mynd, gan gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau trwy anfon e-bost at politics@quaker.org.uk neu ffonio 020 7663 1138.